**Dr Ruth Hussey OBE**
**Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru**
**Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wale**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

18th Mehefin 2015

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Mai, ynghylch Deiseb P-04-603 Helpu Babanod sy'n cael eu Geni yn 22 wythnos i fyw.

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am weithgarwch sydd eisoes ar y gweill, a fydd yn mynd i'r afael a'r ddau fater a godwyd gennych yn eich llythyr.

Achubodd Ms Emma Jones, y deisebydd, y cyfle i gael cyfarfod â Heather Payne, uwch swyddog meddygol iechyd plant a mamau, ac Edward Rees, pennaeth atal gordewdra ac iechyd plant ar 18 Chwefror. Bu'r cyfarfod yn un cadarnhaol ac mae swyddogion eisoes wedi bwrw ymlaen ag awgrymiadau Ms Jones ynghylch yr hyn y mae rhieni am ei gael gan glinigwyr pan fyddant mewn sefyllfa o'r fath.

Yn dilyn y drafodaeth gyda Ms Jones, cytunwyd y dylai Llywodraeth Cymru godi'r mater o reolaeth glinigol babanod cynamserol gyda'i chydweithwyr ym maes Mamolaeth a Phediatreg i sicrhau fod dull Cymru yn gyson. Mewn ymateb i hyn, cytunodd Grŵp Rheoli Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru Gyfan a Rhwydwaith Mamolaeth Cymru Gyfan i gydweithio i ymchwilio i'r canllawiau clinigol presennol ac i sicrhau bod dull cyson yn bodoli ar gyfer Cymru Gyfan. Mae'r darn hwn o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd a byddant yn adrodd yn ôl ym mis Gorffennaf gyda Dogfen Consensws Clinigol i'w defnyddio ar draws GIG Cymru.

Er gwybodaeth, nid yw'r canllawiau clinigol ar ddadebru a gwaith parhaus i gynnal bywyd yn achos babanod cynamserol iawn yn deillio o Lywodraeth Cymru. Canllawiau'r sefydliad proffesiynol (Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain), sy'n meddu ar y profiad mwyaf o ran gofalu am fabanod sâl a chynamserol, yw'r canllawiau. Mae eu canllawiau'n seiliedig ar dystiolaeth ymchwil gadarn ym maes canlyniadau ymyrraeth yn achos y babanod lleiaf a mwy sâl. Yn anffodus yn aml nid yw'r gofal meddygol mwyaf datblygedig yn gallu helpu'r babanod hyn.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffon/Tel: 029 2082 3911
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ebost/Email:ruth.hussey@wales.gsi.gov.uk

Yn ogystal ag ystyried y canllawiau a'r rheolaeth glinigol, tynnodd y swyddogion a gyfarfu â Ms Jones at yr angen i rieni sydd yn yr un sefyllfa hon fod yn wybodus a chyfrannu at wneud penderfyniadau am y gofal y maent hwy a'u plentyn yn ei gael. Felly, fel rhan o'u gwaith, gofynnwyd i'r Grŵp Mamolaeth a'r Rhwydwaith Newyddenedigol ddisgrifio'r llwybr gofal ar gyfer mamau a'u babanod sydd mewn sefyllfa o'r fath. Byddai'r llwybr yn cynnwys darparu gofal lliniarol a gofal profedigaeth.

I sicrhau bod barn y rhieni yn cael ei hystyried, a bod cyfathrebu llwybr gofal yn briodol iddynt, mae Ms Jones wedi cytuno i rannu ei barn â'r Grŵp sy'n cynhyrchu'r ddogfen Consensws Clinigol a'r llwybr gofal.

Mewn ymateb i'ch cwestiynau, byddwn yn disgwyl i bob ysbyty yng Nghymru gynnig gofal yn unol â'r Ddogfen Consensws Clinigol, pan gaiff ei chyhoeddi, gyda'r cyfathrebu priodol rhwng rhieni yn rhan o'r llwybr gofal. Galla ddogfen o'r fath fod yn destun archwiliad clinigol ar adegau priodol.

Dymuniadau gorau

Ruth Hussey

**DR RUTH HUSSEY OBE**
**PRIF SWYDDOG MEDDYGOL/CYFARWYDDWRAIG FEDDYGOL GIG CYMRU**